10 Gorffennaf 2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

## Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Nigel Blewitt, Louise Fleet, Claire Flood-page, Stephen Martin, Jayne Power, Nick Selwyn a Verity Winn (Swyddfa Archwilio Cymru) a Sara-Jayne Byrne (PWC), Karen Smith a Ginette Beal (Grant Thornton) a Melanie Watson (KPMG) o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys

Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i ostwng ymhellach gyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), yn enwedig y rhai 16-18 oed, ond mae eu gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall y costau a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau


Cyflwyniad 6

Argymhellion 11

1 Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i wella canlyniadau pobl ifanc ac yn deall y costau cymdeithasol o beidio â gwneud hynny, ond gwan yw eu dealltwriaeth o'r gost ariannol o gyflawni eu nodau 12

Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig rhai 16-18 oed, ac ar y cyfan, roeddent wedi croesawu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2013 Llywodraeth Cymru 13

Er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn cyfeirio at gost oes gyfan poblogaeth NEET fawr i bwrs y wlad, prin yw'r cyfeiriadau yn y cynlluniau at y gost o gyflawni amcanion y cyngor ac ni cheir unrhyw amcangyfrif o'r costau i'r cynghorau 18

2 Er bod y sail dystiolaeth yn gymharol dda, mae ansawdd gwaith cynllunio strategol y cynghorau yn amrywio ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur 19

Ar y cyfan, caiff gwaith cynllunio'r cynghorau ei gefnogi gan sail dystiolaeth dda sy'n dal i wella ond caiff y broses o dracio pobl ifanc ôl-16 ei llesteirio gan anawsterau rhannu data ac ni cheir manylion am effeithiolrwydd y dulliau amrywiol o nodi pobl ifanc 20

Mae gan gynghorau gyfrifoldeb strategol i gydgysylltu a datblygu gwasanaethau lleol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond nid yw pob un ohonynt yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur 22

Mae'r graddau y mae'r cynghorau'n cynnwys partneriaid mewn gwaith cynllunio yn amrywio ac mae'r trosiant cymharol gyflym ymhlith darparwyr yn amharu ar effeithiolrwydd partneriaethau lleol 24

Mae dibyniaeth ar arian grant yn arwain at ddarpariaeth nad yw yn o reidrwydd yn gysylltiedig ag anghenion ac efallai na fydd yn gynaliadwy yn wyneb toriadau mewn grantiau ac arian yr UE 25

3 Er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, mae'r ffaith nad oes systemau gwerthuso rheolaidd ar waith yn golygu bod cyfraniad ymyriadau unigol yn aml yn aneglur, bod cyfraniad partneriaid yn amrywio ac nad yw safbwyntiau pobl ifanc yn dylanwadu fawr ddim ar waith y cynghorau 27

Nid yw'r cynghorau yn defnyddio dull cyffredin o fonitro'r nifer fawr o brosiectau a rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd, felly mae'n anodd asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian 28

Mae cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach a phartneriaid eraill i wella canlyniadau pobl ifanc sy'n NEET ond gall cystadleuaeth rhwng partneriaid am ddysgwyr amharu ar waith lleol effeithiol 29

Yn gyffredinol, dywedodd cynghorau eu bod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd fel prentisiaethau a phrofiad gwaith ac addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur 31

Mae rhai cynghorau wedi datblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol gyda phobl ifanc ond maent i gyd yn cydnabod y gallent wneud mwy i ddefnyddio barn a phrofiadau pobl ifanc er mwyn dylanwadu ar gynllun gwasanaethau lleol 32

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 36

Atodiad 2 – Argymhellion manwl 37

# Cyflwyniad

1 Mae cynghorau yng Nghymru yn cydnabod ei bod yn bwysig lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn ei thystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i bobl ifanc sy'n NEET yn 2010, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod y broblem nid yn unig yn effeithio ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc unigol, eu teuluoedd a'u plant yn y dyfodol, ond ei bod hefyd yn broblem ddifrifol o ran ffyniant economaidd parhaus Cymru[1].

2 Mae gan gynghorau rôl bwysig i'w chwarae i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Nododd Llywodraeth Cymru ei disgwyliadau o ran cymorth cynghorau i bobl ifanc yn 2000 yn ei chanllawiau Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru ac wedyn yn *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl o 11 i 15 oed yng Nghymru* (2002). Yn y dogfennau hyn, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl i gynghorau ddarparu, sicrhau neu helpu i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid a fydd yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i wneud y canlynol:

a cymryd rhan effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;

b manteisio ar gyfleoedd i weithio; neu

c chwarae rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

3 Mae cyfrifoldebau a rôl arweiniol yr awdurdod lleol i leihau'r niferoedd a'r risg o bobl ifanc sy'n NEET yn seiliedig ar y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol rhwng cynghorau o ran cyfran y disgyblion sy'n gadael blwyddyn 11 ac sy'n NEET o fewn tri mis, gan amrywio o 4.9 i 1.3 y cant o'r rhai sy'n gadael blwyddyn 11 (Ffigur 1).

4 Mae cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n NEET wedi gostwng rhwng 2009 a 2013, o 4.9 y cant yng Nghaerdydd a Chasnewydd i 1.3 y cant yng Ngheredigion. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn Nhorfaen, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Er i gyfran Powys gynyddu ychydig, roedd y sylfaen wreiddiol yn isel ac mae'r gyfran yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Hefyd, gostyngodd cyfran y bobl ifanc sy'n gadael ysgol ar ôl blwyddyn 13 (18 oed) y gwyddys eu bod yn NEET (o 6.6 y cant yn 2009 i 4.7 y cant yn 2012). Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau ar gyfer disgyblion sy'n gadael ym mlwyddyn 13 yn cynnwys y rhai sy'n gadael colegau addysg bellach, ysgolion annibynnol na darparwyr hyfforddiant eraill ac felly ni ellir eu cymharu â'r ffigurau ar gyfer rhai 16 oed.

1 Tystiolaeth CLILC i Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, www.assemblywales.org

Ffigur 1 - Mae cyfran y rhai sy'n gadael ysgolion yng Nghymru ym mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET wedi gostwng yng Nghymru rhwng 2009 a 2013 ond mae graddau'r gwelliant yn amrywio rhwng cynghorau

| Cyngor | Canran y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET | | |
|---|---|---|---|
| | 2009 | 2013 | % newid |
| Torfaen | 8.2 | 2.5 | -70% |
| Merthyr Tudful | 4.6 | 1.9 | -59% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7.6 | 3.7 | -51% |
| Casnewydd | 9.1 | 4.9 | -46% |
| Caerdydd | 8.9 | 4.9 | -45% |
| Sir Fynwy | 5 | 2.8 | -44% |
| Gwynedd | 4.2 | 2.4 | -43% |
| Ceredigion | 2.3 | 1.3 | -43% |
| Abertawe | 6.4 | 3.9 | -39% |
| Castell-nedd Port Talbot | 7.1 | 4.4 | -38% |
| Wrecsam | 5.0 | 3.2 | -36% |
| Bro Morgannwg | 5.6 | 3.8 | -32% |
| Blaenau Gwent | 6.6 | 4.6 | -30% |
| Ynys Môn | 5.2 | 3.7 | -29% |
| Sir Benfro | 4.8 | 3.4 | -29% |
| Conwy | 4.8 | 3.6 | -25% |
| Sir Gaerfyrddin | 4.0 | 3.0 | -25% |
| Rhondda Cynon Taf | 4.9 | 4.1 | -16% |
| Caerffili | 5.0 | 4.4 | -12% |
| Sir Ddinbych | 4.4 | 4.1 | -7% |
| Sir y Fflint | 3.7 | 3.6 | -3% |
| Powys | 2.1 | 2.7 | 29% |
| **Cymru** | **5.7** | **3.7** | **-35%** |

*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, Arolwg o Gyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru*

5 Yn yr astudiaeth hon, gwnaethom adolygu gwaith cynghorau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) gan ystyried p'un a ydynt mewn sefyllfa dda i alluogi pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny i gyflawni canlyniadau gwell. Gwnaethom ystyried y data diweddaraf a dogfennau strategol allweddol[2] pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn ogystal â chanlyniadau ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd gan gynghorau ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod Gwanwyn 2013. Gwnaethom ymweld ag wyth cyngor[3] rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2013 gan siarad â chynghorwyr, swyddogion a sefydliadau partner yn ogystal ag adolygu amrywiaeth o ddogfennau'r cynghorau, eu cynlluniau sefydliadol a'u strategaethau. Ar yr un pryd, gwnaethom waith dilynol yng Nghynghorau Abertawe a Wrecsam ar ganfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed yn 2011 er mwyn darganfod a oedd yr arfer da a nodwyd bryd hynny wedi parhau. Gwnaethom hefyd adolygu Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (y Fframwaith) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013 gan ystyried ei oblygiadau i awdurdodau lleol.

6 Daethom i'r casgliad **fod cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i ostwng ymhellach gyfran y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai 16-18 oed, ond bod eu gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall y costau neu werthuso effeithiolrwydd ymyriadau**.

## Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i wella canlyniadau pobl ifanc ac yn deall y costau cymdeithasol o beidio â gwneud hynny, ond gwan yw eu dealltwriaeth o'r gost ariannol o gyflawni eu nodau

7 Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig pobl ifanc 16-18 oed. Croesawodd y cynghorau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i dull o weithredu yn gyffredinol.

8 Ar y cyfan, mae gan gynghorau ddealltwriaeth dda o effaith gymdeithasol ac economaidd pobl ifanc sy'n dod yn NEET, gan gynnwys canlyniadau iechyd is, troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn nodi cost ariannol poblogaeth NEET uchel i'r gymdeithas, anaml y maent yn cyfeirio at y gost o gyflawni eu hamcanion, gan gynnwys costau cyfle, neu'n cyfrifo'r costau i'r cynghorau eu hunain.

## Er bod y sail dystiolaeth yn gymharol dda, mae ansawdd gwaith cynllunio strategol y cynghorau yn amrywio ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur

9 Caiff gwaith cynllunio cynghorau ei gefnogi gan sail dystiolaeth dda, sy'n dal i wella, am anghenion a lleoliad pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny a'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, nid oes gan rai cynghorau ddigon o fanylion am broffil lleol pobl ifanc sy'n NEET. Mae rhai wrthi'n datblygu prosesau i dracio cyrchfannau pobl

2 Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau strategol gennym gan gynnwys Cynlluniau Gwella, Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'u Strategaethau ar gyfer Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant lle roedd dogfennau o'r fath ar gael.

3 Cynhaliwyd gwaith maes yng Nghynghorau Caerffili, Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Sir y Fflint rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2013. Gwnaed gwaith maes hefyd yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ystod Hydref 2013.

ifanc ym mlwyddyn 11 ond mae anawsterau o ran rhannu data rhwng sefydliadau yn rhwystro rhai rhag tracio pobl ifanc yn effeithiol, yn enwedig pobl ifanc dros 19 oed. Mae cynghorau'n datblygu amrywiaeth o ddulliau gydag ysgolion i nodi disgyblion sy'n wynebu risg o ddod yn NEET ond prin yw'r cynghorau sydd wedi gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau hyn.

10 Mae gan gynghorau gyfrifoldeb strategol i gydgysylltu a datblygu gwasanaethau lleol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Ond nodwyd gennym fod rhai cynghorau a'u partneriaid yn ansicr ynglŷn â chyfrifoldebau'r cynghorau, yn enwedig dros bobl ifanc 19-24 oed. Mae llawer o gynghorau heb bennu targedau mesuradwy na mesurau perfformiad y gallant eu defnyddio i fonitro cynnydd. Mewn rhai cynghorau, mae'r trefniadau ar gyfer dwyn partneriaid i gyfrif yn aneglur.

11 Mae'r graddau y mae'r cynghorau yn cynnwys eu partneriaid yn eu gwaith cynllunio yn amrywio. Weithiau, roedd gallu cynghorau i ddwyn eu holl bartneriaid a darparwyr i gyfrif yn cael ei gyfyngu gan y nifer fawr o ddarparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny a diffyg gwybodaeth gan rai darparwyr am ganlyniadau eu gwaith. Mae'r trosiant cymharol gyflym ymhlith rhai darparwyr yn effeithio ar bartneriaethau lleol, a all gymryd cryn amser i ddatblygu'n gydberthnasau gwaith effeithiol.

12 Mae dibyniaeth ar grantiau a chontractau byrdymor yn aml yn arwain at ddarpariaeth nad yw o reidrwydd yn berthnasol i anghenion a nodwyd yn lleol. Mynegodd rhai cynghorau bryder nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy yn wyneb toriadau mewn grantiau ac arian yr UE.

**Er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, mae'r ffaith nad oes systemau gwerthuso rheolaidd ar waith yn golygu bod cyfraniad ymyriadau unigol yn aml yn aneglur, bod cyfraniad partneriaid yn amrywio ac nad yw safbwyntiau pobl ifanc yn dylanwadu fawr ddim ar waith y cynghorau**

13 Nid yw'r cynghorau yn defnyddio dull cyffredin o fonitro'r nifer fawr o brosiectau a rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd, felly mae'n anodd asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian. Tystiolaeth gyfyngedig sydd gan y cynghorau ar effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer y grŵp targed yn eu hardaloedd. Ni chynhelir gwerthusiadau rheolaidd ac roedd rhai cynghorau wedi'i chael hi'n anodd cael gwybodaeth am ganlyniadau rhaglenni ac ymyriadau gan bartneriaid.

14 Mae'r cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i nodi a chynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Fodd bynnag, ar y cyfan, credai'r rhai a gafodd eu cyfweld fod y gystadleuaeth ymhlith partneriaid am ddysgwyr weithiau yn eu rhwystro rhag cydweithio'n effeithiol.

15 Yn gyffredinol, dywedodd y cynghorau ei bod yn anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a phrofiad gwaith. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o gynghorau'n gweithio gyda busnesau lleol ac yn datblygu eu rhaglenni prentisiaeth eu hunain ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â rhaglenni cymorth cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

16 Mae rhai cynghorau wedi datblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio’r rhyngrwyd a’r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu a chysylltu â phobl ifanc. Gwelsom enghreifftiau o gynghorau’n ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â’r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio ac yn cymryd camau ychwanegol i ymgysylltu â grwpiau o bobl ifanc sy’n anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, cydnabu’r holl gynghorau y gallent wneud mwy i gynnwys barn pobl ifanc yn fwy systematig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

# Argymhellion

Mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fapio gwasanaethau, sefydlu trefniadau nodi'n gynnar, sefydlu darpariaeth gweithwyr allweddol a datblygu a thrafod eu cynlluniau i leihau niferoedd NEET gyda Llywodraeth Cymru. Hefyd, dylai cynghorau wneud y canlynol:

A1 Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith.

A2 Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

A3 Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol.

A4 Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

A5 Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed.

A6 Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET.

17 Mae rhagor o awgrymiadau i helpu cynghorau i weithredu'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Rhan 1

# Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i wella canlyniadau pobl ifanc ac yn deall y costau cymdeithasol o beidio â gwneud hynny, ond gwan yw eu dealltwriaeth o'r gost ariannol o gyflawni eu nodau



## Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig rhai 16-18 oed, ac ar y cyfan, roeddent wedi croesawu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2013 Llywodraeth Cymru

1.1 Yn ein gwaith maes, nodwyd yn gyffredinol i gynghorwyr a swyddogion fynegi ymrwymiad clir i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai 16-18 oed. Er enghraifft, roedd y weinyddiaeth newydd a gafodd ei hethol yng Nghaerdydd yn 2012 wedi addo gwneud Caerdydd yn ddinas 'rhydd rhag NEET'[4]. Er ei fod yn hŷn na Strategaeth Ymgysylltu, Pontio a Dilyniant Pobl Ifanc y Cyngor, dywedwyd mai'r ymrwymiad hwn sy'n llywio'r polisi ac fe'i hadlewyrchir mewn amrywiaeth o ddogfennau strategol, gan gynnwys y Cynllun Integredig Sengl, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Corfforaethol. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd gostyngiadau sylweddol yng Nghaerdydd yng nghyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ac mae swyddogion wedi priodoli hyn i weithgareddau sy'n cynnwys: codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4; cynnig cwricwlwm ehangach â mwy o opsiynau galwedigaethol a llwybrau datblygu; a defnyddio Hyfforddwyr Dysgu. Fodd bynnag, mae strategaeth 2013 y Cyngor yn cydnabod y bydd angen iddo ostwng y gyfran yn gyflymach er mwyn gwireddu ei weledigaeth y bydd pob person ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

1.2 Mewn ardaloedd eraill, gwelwyd bod ymrwymiad rhai cynghorau i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET wedi dwysáu yn ddiweddar. Yn Nhorfaen, er enghraifft, gwelsom ymwybyddiaeth gynyddol o'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET a dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld bod gweithgarwch wedi newid yn sylweddol yn ystod y 18 mis diwethaf. Cydnabyddir yr ymrwymiad hwn yn Strategaeth Addysg i Gyflogaeth 2012-16 Cyngor Torfaen.

1.3 Dywedodd rhai cynghorau fod penodi swyddog arweiniol wedi bod yn gam pwysig, gan ei fod wedi rhoi ffocws a hwb i waith y cynghorau i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. Er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf, disgrifiodd swyddogion sut y gwnaeth y gweithgarwch leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET gyflymu ar ôl i'r Cyngor greu swydd 'Cydgysylltydd y Strategaeth' i gefnogi ei strategaeth *Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant* (SEET). Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu pwysleisio blaenoriaeth y maes polisi hwn drwy gynnwys 'cyflawni'r weledigaeth o ran pobl ifanc sy'n NEET' yn nisgrifiadau swyddi nifer o gyfarwyddwyr newydd a benodir ar ôl yr ailstrwythuro.

1.4 Hyd yma, mae gwaith cynllunio a gweithgarwch y rhan fwyaf o'r cynghorau wedi canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed. Roedd y rhan fwyaf ohonynt hefyd yn gallu dangos eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith i nodi'r disgyblion hynny o dan 16 oed a oedd fwyaf tebygol o gymryd camau pontio gwael yn 16 oed a'u bod yn cynnig cymorth a chanllawiau ym mlwyddyn 11 ac weithiau ynghynt. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau yr ymwelwyd â hwy yn dechrau ystyried gwella canlyniadau pobl ifanc 19-24 oed:

4 Mae'r adduned hon wedi'i diwygio bellach i 'Uchelgais Caerdydd yw bod yn ddinas lle mae pob person ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant', sy'n adlewyrchu'n rhannol bryderon am natur ddifrïol y term 'NEET'.

a Mae Cyngor Abertawe yn datblygu Strategaeth NEET i bobl ifanc 18-24 oed gyda phartneriaid allweddol yn Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar gyfres o weithdai a gynhaliwyd gan Kafka Brigade UK er mwyn deall y prif faterion sy'n effeithio ar y garfan hon. Yr arwyddion cynnar yw y bydd y Strategaeth yn datblygu'r model pum haen er mwyn nodi unigolion 18-24 oed sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn debygol o gynnwys prosiect peilot i dargedu grwpiau â blaenoriaeth uchel.

b Mae Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi dechrau cydweithio i fapio anghenion penodol pobl ifanc 19-24 oed sydd wedi ymddieithrio yn yr ardal.

c Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithio gyda phartneriaid ei Fwrdd Gwasanaethau Lleol i lunio prosiect a fydd yn gwella rhagolygon addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc 16-24 oed. Bydd y prosiect yn: adolygu'r rhaglenni sydd eisoes ar waith yn yr ardal; datblygu 'Adduned Cyflogwr' er mwyn annog cyflogwyr i ddarparu profiad gwaith; a chynyddu cyfleoedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

ch Mae Cyngor Caerffili, ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, wedi datblygu rhaglen PASSPORT er mwyn llenwi bylchau lleol mewn sgiliau drwy roi cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc. Mae'r rhaglen yn targedu pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

d Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyflwyno prosiect STAR ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sy'n agored i niwed, gan gynnwys troseddwyr ifanc a phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r prosiect yn helpu pobl ifanc i gael cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a'u cynnal.

1.5 Adolygodd Estyn strategaethau NEET y cynghorau a gafodd arolygiadau yn 2012-13 ac yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf ar gyfer 2012-13, dywedodd Estyn 'mewn lleiafrif o awdurdodau, nid yw strategaethau'n ddigon da i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y sector ôl-16'.[5]

1.6 Ni wnaethom gynnal asesiad manwl o strategaethau NEET sydd ar waith ledled Cymru. Gwnaethom adolygu eu ffocws ac i ba raddau roeddent yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n NEET. Gwnaethom hefyd adolygu cynnwys strategaethau'r cynghorau y gwnaethom ymweld â hwy. Gwnaethom nodi nad oedd gan bob cyngor 'strategaeth NEET' benodol ond roedd pob un ohonynt wedi cyfeirio at bobl ifanc sy'n NEET yn un o'u cynlluniau strategol o leiaf. Mae pob cyngor wedi llunio targedau neu ddatganiadau yn ymwneud â gwella canlyniadau i bobl ifanc 16-18 oed sy'n croestorri amrywiaeth o ddogfennau strategol (Ffigur 2). Mae gan bump o'r cynghorau yr ymwelwyd â hwy amcanion gwella penodol sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd y rhan fwyaf o'r cynghorau hefyd wedi cynnwys amcanion i wella canlyniadau pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny, yn eu Cynlluniau Integredig Sengl. Mae'r cynlluniau yn cynnwys amrywiaeth o fesurau perfformiad, er ein bod wedi nodi nad oedd unrhyw fesurau yn cyfateb i dargedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru[6]. Mae'r cynlluniau a/neu'r amcanion gwella hyn hefyd yn wahanol iawn o ran eu ffocws:

5 Estyn (2014), Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012-13, tudalen 113 www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiad-blynyddol/adroddiad-blynyddol-2012-2013/

6 Nid yw Cyngor Ceredigion wedi nodi grŵp oedran yn ei Gynllun Integredig Sengl ond dywedodd swyddogion wrthym mai'r ystod oedran dan sylw yw pobl ifanc 16-24 oed.

a Pobl ifanc 18 oed neu drosodd (Abertawe a Wrecsam).

b Pobl ifanc 14-19 oed (Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg).

c Pobl ifanc 16-18 oed (Rhondda Cynon Taf a Thorfaen).

ch Pobl ifanc 16-24 oed (Caerffili, Caerdydd, Conwy a Sir y Fflint).

d Mae Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint wedi pennu targedau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys: presenoldeb plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; canran y bobl ifanc 16-19 oed sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; a nifer y disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n cael eu pen-blwydd yn 16 oed yn ystod y flwyddyn ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster cymeradwy.

1.7 Ar y cyfan, roedd y cynghorau yn croesawu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a ddatblygwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru[7]. Roedd rhai o'r cynghorau yn ein gwaith maes yn cymryd rhan yn nhreialon Llywodraeth Cymru ar gyfer y fframwaith ac roeddent eisoes wedi dechrau diweddaru eu strategaethau yng ngoleuni gofynion Llywodraeth Cymru: roedd Cyngor Caerffili wedi ymgorffori rôl y gweithiwr arweiniol mewn saith swydd newydd i hyfforddwyr dysgu. Roedd Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg wedi ail-lunio eu strategaethau NEET cyn i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi a datblygodd Cynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro Gynllun Gweithredu NEET ar y cyd mewn ymateb i'r Fframwaith.

7 Yn ystod y gwaith maes, roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'i statws ond roedd hyn cyn i'r Gweinidog gyhoeddi'r Fframwaith ar 1 Hydref 2013, ac mae'r cyhoeddiad hwn yn debygol o fod wedi egluro rolau'r cynghorau mewn perthynas â'r fframwaith.

Ffigur 2 - Roedd gan yr holl gynghorau ryw fath o amcanion strategol i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny, yn ystod Hydref 2013

| Awdurdod lleol | A oes gan yr awdurdod 'Strategaeth NEET'? | A oes unrhyw Amcan(ion) Gwella yn cyfeirio'n benodol at leihau lefelau NEET? | A yw gostwng y gyfran o bobl ifanc sy'n NEET wedi'i gynnwys mewn dogfennau? | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhannau eraill o'r Cynllun Gwella | Cynllun Integredig Sengl | Y Cynllun Cydradd-oldeb Strategol |
| Blaenau Gwent | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Caerffili | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Caerdydd | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sir Gaerfyrddin | Wrthi'n datblygu strategaeth ar y cyd â Sir Benfro | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Ceredigion | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Conwy | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Sir Ddinbych | Nac oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Sir y Fflint | Oes – yng Nghynlluniau Gweithredu a Chyflawni'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | Nac oes | Ydy | Fersiwn ddrafft i ymgynghori arni ar hyn o bryd | Ydy |
| Gwynedd | Nac oes | Oes | Ddim yn benodol | Heb ei gyhoeddi eto | Ydy |
| Ynys Môn | Nac oes | Nac oes | Dd/G | Ydy | Nac ydy |
| Merthyr Tudful | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Nid yw'n hysbys |
| Sir Fynwy | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Castell-nedd Port Talbot | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Ydy |

| Awdurdod lleol | A oes gan yr awdurdod ‘Strategaeth NEET’? | A oes unrhyw Amcan(ion) Gwella yn cyfeirio'n benodol at leihau lefelau NEET? | A yw gostwng y gyfran o bobl ifanc sy’n NEET wedi’i gynnwys mewn dogfennau? | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhannau eraill o'r Cynllun Gwella | Cynllun Integredig Sengl | Y Cynllun Cydradd-oldeb Strategol |
| Casnewydd | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sir Benfro | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Powys | Oes ('Strategaeth cadw mewn cysylltiad') | Nac oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rhondda Cynon Taf | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Abertawe | Wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed | Nac oes | Dim byd penodol | Ydy | Nac ydy |
| Torfaen | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Ydy |
| Bro Morgannwg | Oes | Oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Wrecsam | Oes | Nac oes | Ydy | Ydy | Nac ydy |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gynlluniau Gwella a dogfennau strategol eraill cynghorau gan gynnwys y cynlluniau integredig sengl a’r cynllun cydraddoldeb strategol yn ystod Hydref 2013*

## Er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn cyfeirio at gost oes gyfan poblogaeth NEET fawr i bwrs y wlad, prin yw'r cyfeiriadau yn y cynlluniau at y gost o gyflawni amcanion y cyngor ac ni cheir unrhyw amcangyfrif o'r costau i'r cynghorau

1.8 Mewn cyfarfodydd â ni, dangosodd cynghorwyr a swyddogion ddealltwriaeth o effaith gymdeithasol ac economaidd gyffredinol pobl ifanc sy'n ymddieithrio, gan gynnwys canlyniadau iechyd is, mwy o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y tymor byr a'r tymor hir.

1.9 Cyfeiriwyd hefyd at gostau economaidd pobl ifanc sy'n NEET am gyfnodau estynedig mewn amrywiaeth o asesiadau, ymarferion mapio ac, weithiau, Gynlluniau Integredig Sengl cynghorau. Roedd canlyniadau economaidd poblogaeth NEET uchel wedi dylanwadu ar waith i ddatblygu prosiectau, gan gynnwys Cynllun Pasbort Cyngor Caerffili; mentrau gyda busnesau lleol i lenwi bylchau mewn sgiliau yng Nghaerdydd; a gwaith i ddatblygu cymalau ar effeithiau cymdeithasol i'w cynnwys mewn contractau caffael yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Fodd bynnag, y duedd oedd cyfeirio at y gost fyd-eang gyffredinol o fod yn NEET. Nid oedd cynghorau wedi cyfrifo cost pobl ifanc sy'n NEET iddynt hwy yn uniongyrchol nac wedi mapio ac adolygu eu gwariant ar wasanaethau i'r bobl ifanc hyn. Mae'r diffyg dadansoddiadau ariannol yn cyfyngu ar allu'r cynghorau i gydbwyso gwasanaeth NEET â blaenoriaethau anstatudol eraill yn wyneb heriau ariannol.

1.10 Mae rhai cynghorau wedi nodi'r gost o weinyddu rhai mentrau, yn enwedig darpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed, ond nid ydynt wedi cynnal asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i wella canlyniadau pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Nid oedd digon o fanylion yn y prif ddogfennau am yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau strategol ac nid oeddent yn ystyried y gost o weithredu fframwaith Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi'r adnoddau o ran amser staff a hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau yn ei ddogfennau strategol a cheir rhai cyfeiriadau at gyllid. Yng Nghaerdydd, mae'r cyngor wedi nodi cost elfen froceru ei strategaeth Ymgysylltu, Pontio a Dilyniant Pobl Ifanc.

1.11 Mae sawl cyngor eisoes wedi llunio prosesau nodi a thracio yn seiliedig ar fodel pum haen Gyrfa Cymru ar gyfer ymgysylltu a datblygu. Mae hyn yn galluogi staff i nodi anghenion cymorth pob grŵp, a chaiff yr asesiad risg ei ategu gan gyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth a chynllunio ymyriadau fesul achos. Mae o leiaf ddau gyngor (Caerdydd ac Abertawe) yn datblygu cynlluniau i ddefnyddio'r model hwn i dracio, nodi a chynorthwyo pobl ifanc 19-24 oed. Mae hon yn broses anos o gymharu â phobl ifanc 16-18 oed, gan fod llai o ddata ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i nodi a thracio eu hynt. Yn ystod haf 2013, nid oedd y naill gyngor na'r llall wedi gallu amcangyfrif faint o adnoddau fyddai eu hangen i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer y niferoedd llawer uwch o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET.

## Rhan 2

## Er bod y sail dystiolaeth yn gymharol dda, mae ansawdd gwaith cynllunio strategol y cynghorau yn amrywio ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur



## Ar y cyfan, caiff gwaith cynllunio'r cynghorau ei gefnogi gan sail dystiolaeth dda sy'n dal i wella ond caiff y broses o dracio pobl ifanc ôl-16 ei llesteirio gan anawsterau rhannu data ac ni cheir manylion am effeithiolrwydd y dulliau amrywiol o nodi pobl ifanc

### Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi cynnal ymarferion i ddeall anghenion a lleoliad pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ond nid oedd gan bob un ohonynt y manylion angenrheidiol

2.1 Mae'r sail dystiolaeth ynglŷn ag anghenion cymorth pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny, yn gwella. Er enghraifft, cynhaliodd Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych ymarfer ar y cyd yn 2012 a dynnodd sylw at yr effaith y gallai poblogaeth NEET uchel yn yr ardal ei chael ar droseddau, iechyd a lles. Gwnaethant ddefnyddio model pum haen Gyrfa Cymru i lunio proffil o'r bobl ifanc 16-18 oed a oedd yn NEET er mwyn deall y galw am wasanaethau yn well. Mae sawl cyngor hefyd wedi mapio lleoliad pobl ifanc sy'n NEET er mwyn nodi ardaloedd lle ceir lefelau uchel o bobl ifanc sy'n NEET fel y gellir targedu gwasanaethau.

2.2 Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd gan rai cynghorau ddigon o fanylion o hyd am broffil y bobl ifanc sy'n NEET yn eu hardal, er enghraifft, nid oeddent yn gallu gwahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd o'u hastudiaethau a phobl ifanc sy'n NEET yn barhaus. Ym Mro Morgannwg, dywedodd swyddogion wrthym fod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda yn gyffredinol o nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, nid oedd ganddo ddadansoddiad manwl o'r hyn sy'n eu rhwystro rhag bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a chydnabuwyd y byddai ymgynghori â phobl ifanc a chasglu a dadansoddi data ar bobl ifanc sy'n NEET mewn ffordd fwy cyson yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau gwell.

2.3 Yn yr un modd, mae Cynllun Gweithredu NEET Sir Gaerfyrddin yn cydnabod y gellid gwneud mwy i ddefnyddio dadansoddiadau o ddata er mwyn llywio cynlluniau strategol ac mae'n amlinellu cynlluniau i'r Pwyllgor Gweithredol Plant a Phobl Ifanc graffu'n rheolaidd ar ddata sy'n dangos tueddiadau a chanlyniadau allweddol. Roedd y meysydd lle nododd y cynghorau fod rhai gwendidau yn ei sail dystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth am bobl ifanc anabl y gwyddys eu bod yn wynebu risg uchel o ddod yn NEET, yn enwedig ar ôl 19 oed; mewnfudwyr; pobl ifanc sy'n sipsiwn a theithwyr; a phobl ifanc dan oed sydd ar eu pen eu hunain.

### Mae cynghorau hefyd wedi cynnal ymarferion i fapio'r nifer fawr o sefydliadau amrywiol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET a'r rhai sy'n wynebu risg o hynny

2.4 Mae rhai cynghorau eisoes wedi mapio'r ddarpariaeth lawn i bobl ifanc sy'n NEET yn eu hardal, gan gynnwys nid yn unig y ddarpariaeth a ariennir gan y cyngor ond hefyd y ddarpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Loteri Fawr ac amrywiaeth o sefydliadau elusennol. Mewn rhai ardaloedd, dangosodd yr ymarfer hwn fod llawer o sefydliadau'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Er y dylai fod gan gynghorau ddarlun llawn o gyfleoedd ysgol ac addysg bellach ôl-16, dywedodd rhai wrthym ei bod yn anodd sicrhau eu bod yn gwybod beth yw'r diweddaraf o ran yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau, swyddi gwag a chyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc 16-24 oed drwy Dwf Swyddi

Cymru yn ogystal â'r rhaglenni a ddarperir gan y trydydd sector, y mae rhai ohonynt yn gymharol fyr.

2.5 Darparodd yr ymarferion mapio ddarlun o lefel y ddarpariaeth a'r math o ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ardal a gwnaethant hefyd ddangos bylchau ac achosion o ddyblygu darpariaeth. I'r gwrthwyneb, gwelwyd hefyd fylchau yn y ddarpariaeth i rai grwpiau. Yng Nghaerdydd, roedd swyddogion yn poeni am y diffyg lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) ac yn Wrecsam mae'r galw am gyrsiau TGCh a chyrsiau ymarferol yn fwy na'r hyn sydd ar gael.

## Mae rhai cynghorau wedi datblygu prosesau i dracio pobl ifanc ar ôl iddynt droi'n 16 oed ond weithiau caiff y gwaith hwn ei lesteirio gan anawsterau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau

2.6 Mae Cyngor Abertawe wedi llwyddo i dracio'r holl bobl ifanc yng ngharfan blwyddyn 11 drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)[8] dros y tair blynedd diwethaf a chafodd Rhondda Cynon Taf lwyddiant tebyg wrth nodi cyrchfannau pobl ifanc yn y fwrdeistref. Yn yr ardaloedd hyn a rhai eraill, roedd trefniadau lleol ac ymddiriedaeth a ddatblygwyd dros sawl blwyddyn wedi helpu i dracio'r bobl ifanc sy'n NEET yn lleol a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Fodd bynnag, mewn rhai cynghorau eraill, dywedodd swyddogion fod pryderon am rannu data yn amharu ar waith i dracio pobl ifanc yn effeithiol ar ôl blwyddyn 11. Roedd rhai cynghorau yn gweithio i ddatblygu protocolau rhannu data lleol ond dywedwyd wrthym y byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar rannu data yn effeithiol. Cyfeiriodd rhai swyddogion at broblemau o ran cael gwybodaeth ddibynadwy am gyrchfannau a'r nifer sy'n gadael cyrsiau'n gynnar gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau addysg bellach. O ganlyniad, daethom i'r casgliad bod gofyniad Llywodraeth Cymru i ddarparwyr fod yn fwy parod i rannu gwybodaeth am gyrchfannau a'r rhai sy'n gadael cyrsiau yn gynnar â Gyrfa Cymru, yn debygol o fod o fudd i gynghorau.

2.7 Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wybodaeth am bobl ifanc 19-24 oed sy'n ddi-waith. Fodd bynnag, ni all rannu manylion personol a fyddai'n helpu i dracio'r bobl ifanc hyn â chynghorau am fod deddfwriaeth diogelu data yn cyfyngu ar y data personol am hawlwyr y gall eu rhannu. Yng Ngheredigion, er enghraifft, er bod y protocol rhannu data wedi'i ddatblygu'n dda, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cymryd rhan mewn ymarferion rhannu data na thracio lleol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i lunio proffil o bobl ifanc 19-24 oed yn lleol sy'n NEET er mwyn helpu i gynllunio ymyriadau a gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Mae Cyngor Abertawe yn datblygu cytundebau rhannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau'n lleol er mwyn tracio cynnydd ac fel rhan o hyn, gofynnir i bobl ifanc roi caniatâd i'r Ganolfan Byd Gwaith rannu eu manylion â'r Cyngor pan fyddant yn gwneud eu cais cyntaf am fudd-daliadau.

## Mae Cynghorau'n datblygu ffyrdd o nodi disgyblion sy'n wynebu risg o ddod yn NEET ond nid yw effeithiolrwydd y dulliau amrywiol wedi'i werthuso eto

2.8 Mae cynghorau ac ysgolion wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd o nodi disgyblion sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Mae'r adnoddau rhagfynegi hyn yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cyrhaeddiad, presenoldeb, ymddygiad a dangosyddion eraill. Mae gan Wrecsam a Sir Gaerfyrddin gynlluniau i ddechrau nodi disgyblion mor gynnar â blwyddyn chwech (11 oed), tra bod eraill yn canolbwyntio ar ddisgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11 (15 i 16 oed).

8 Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) yn cynnwys manylion disgyblion mewn meithrinfeydd, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir gan y wladwriaeth. Nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys plant a addysgir y tu allan i ysgolion nac mewn ysgolion annibynnol.

2.9 Fodd bynnag, prin yw'r cynghorau sydd wedi gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau y maent yn eu datblygu i nodi disgyblion sy'n wynebu risg o ddod yn NEET neu'r amrywiaeth o adnoddau asesu a ddefnyddir. Mae Cyngor Abertawe yn llunio adroddiad blynyddol ar gyrchfannau blwyddyn 11 sy'n cynnwys dadansoddiad o ddata'r garfan yn ôl oed, ward, ethnigrwydd a'r statws coch, oren neu wyrdd a roddwyd i'r disgyblion yn ystod yr asesiad o ba mor agored i niwed ydynt. Defnyddiwyd hyn i nodi tueddiadau ac adolygu effeithiolrwydd yr adnodd sy'n asesu pa mor agored i niwed yw disgyblion. Canfu'r adroddiad yn 2012 i 16 y cant o'r garfan gael statws 'coch'. Cafodd 17 y cant arall statws 'oren' a chynigiwyd cymorth a threfniadau monitro llai manwl iddynt. Canfu gwaith dilynol, o'r ychydig dros 900 o ddysgwyr a gafodd statws 'coch' neu 'oren' ym mlwyddyn 11, mai dim ond saith y cant o'r rheini a gafodd statws coch neu oren ym mlwyddyn 11 a nodwyd yn bobl ifanc sy'n NEET yn ddiweddarach. O'r rheini y gwyddys eu bod yn NEET ar ôl blwyddyn 11, dim ond 10 ohonynt oedd heb gael eu nodi fel rhai a oedd yn wynebu risg ym mlwyddyn 11.

2.10 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil yn edrych ar y ffactorau i ddarogan orau a fydd pobl ifanc yn dod yn NEET ym mis Medi 2013 a chyhoeddodd ganllawiau arfer effeithiol i gynghorau ar ddatblygu dulliau nodi ym mis Ionawr 2014[9]. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod na fydd dulliau nodi safonedig ar waith ledled Cymru gan fod rhai cynghorau eisoes wedi datblygu eu dulliau eu hunain. Gofynnodd i bob cyngor roi prosesau ar waith i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET yng Nghyfnod Allweddol 4 erbyn mis Medi 2013. Mae'n disgwyl y bydd cynghorau'n gallu nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg yng Nghyfnod Allweddol 3 erbyn mis Medi 2016.

## Mae gan gynghorau gyfrifoldeb strategol i gydgysylltu a datblygu gwasanaethau lleol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond nid yw pob un ohonynt yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur

2.11 Roedd gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau eithaf clir i ddwyn swyddogion i gyfrif am gynnydd wrth leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond roedd pryderon weithiau am lefel ac amlder yr adroddiadau i bwyllgorau craffu neu'r cabinet. Yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, roedd cynnydd y Cyngor yn erbyn yr amcan gwella NEET yn cael ei fonitro o dan y trefniadau rheoli perfformiad a oedd eisoes ar waith, ond nid oedd unrhyw waith monitro nac adrodd penodol ar ei dargedau NEET ac nid oedd y cynllun gweithredu a oedd yn cael ei ddatblygu er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth Cefnogi Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn nodi pwy oedd yn gyfrifol am gamau gweithredu.

2.12 Fodd bynnag, mewn rhai cynghorau, roedd lefel yr her ac atebolrwydd yn wan. Er enghraifft, yng Nghaerffili, daeth adroddiad gan Estyn yn 2012 i'r casgliad nad oedd y broses graffu ar y cyfan yn cael ei defnyddio i ddwyn partneriaid i gyfrif am waith i wella canlyniadau plant a phobl ifanc ac, ar adeg y gwaith maes, nid oedd y pwyllgorau craffu na'r Cabinet wedi ystyried unrhyw adroddiad a oedd yn rhoi sylw penodol i weithgareddau neu gynnydd o ran NEET.

9 Llywodraeth Cymru (2014), Nodi'n gynnar: Canllawiau arfer effeithiol, www.wales.gov.uk

2.13 Nid yw rhai cynghorau wedi pennu unrhyw dargedau na mesurau perfformiad ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc sy'n NEET, sy'n lleihau eu gallu i ddwyn swyddogion a phartneriaid i gyfrif. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, er bod swyddogion a phartneriaid yn ymrwymedig i gyflawni nod y Cyngor o fod yn 'rhydd rhag NEET', gwnaethom arsylwi fod atebolrwydd a threfniadau rheoli perfformiad yn gryfach mewn rhai adrannau nag eraill. Nid yw'r Cyngor wedi pennu unrhyw darged cyffredinol i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET er mwyn gallu nodi cynnydd tuag at ei ddymuniad, sef 'dinas rydd rhag NEET'. Yn y Cyngor, mae Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf wedi datblygu cardiau sgorio er mwyn mesur cynnydd a defnyddir amrywiaeth o fesurau perfformiad i fonitro cynnydd hyfforddwyr dysgu, canolfannau hyfforddi a menter a thîm Gyrfa Cymru. Yn yr un modd, yn Rhondda Cynon Taf, nid yw 'Strategaeth Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant 2012-15', y Cynllun Integredig Sengl na'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys targedau clir nac yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

2.14 Roedd rhai cynghorau yn cydnabod y gellid gwneud mwy yn fewnol a chyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau statudol tuag at bobl ifanc 16-24 oed yn gyffredinol ac, yn arbennig, y rhai sy'n gadael gofal. Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu gwneud hyn drwy 'adduned i'r rhai sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal' sy'n egluro'r cyfrifoldebau cyfreithiol yn gliriach. Caiff yr adduned hon ei datblygu ar y cyd â phartneriaid yn ogystal â phlant a phobl ifanc a'r nod yw codi ymwybyddiaeth o rwymedigaethau statudol yn y gobaith y byddant yn dod rhan fwy cyffredin o waith cynllunio gwasanaethau.

2.15 Roedd enghreifftiau cadarnhaol eraill o adrannau unigol o fewn cynghorau yn bodloni eu gofynion statudol:

a Bwrdd Canlyniadau Plant sy'n Derbyn Gofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n monitro data gan asiantaethau perthnasol ar blant sy'n derbyn gofal ac yn craffu arnynt. Hefyd, enillodd y Cyngor wobr gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus am y gwaith a wnaeth ei grŵp gorchwyl a gorffen craffu ar dlodi plant i godi ymwybyddiaeth cynghorwyr o effaith tlodi plant.

b Barnodd Arolygiad gan Estyn yn 2012 fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn dda mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a bod ganddo bolisi a gweithdrefnau diogelu clir.

c Nododd Cyngor Bro Morgannwg ei rôl gyfreithiol yn ei Strategaeth NEET, gan gynnwys asesiad cydraddoldebau.

2.16 Fodd bynnag, nid yw'n amlwg bod gan gynghorwyr a swyddogion ddealltwriaeth gyffredinol o gyfrifoldebau am gydgysylltu gwasanaethau ieuenctid, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Dywedodd rhai cynghorwyr yng Nghyngor Caerdydd nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar y cyfrifoldebau statudol hyn. Roedd sawl cyngor wedi methu â dangos p'un a ydynt yn monitro cydymffurfiaeth â'u cyfrifoldebau cyfreithiol yn rheolaidd. Mewn rhai ardaloedd, roedd swyddogion a phartneriaid cynghorau'n cydnabod cyfrifoldebau cyfreithiol y cyngor am gydgysylltu ac arwain gwasanaethau ieuenctid. Mewn rhai eraill, er bod swyddogion a chynghorwyr yn cydnabod cyfrifoldebau'r cyngor am bobl ifanc hyd at 24 oed, gwnaethant

godi pryderon gweithredol am gyfyngiadau eu cysylltiad â'r grŵp oedran hwn, o gymharu â'r rhai 16-18 oed lle roedd llawer o gysylltiadau'n bodoli drwy'r bartneriaeth 14-19 a meysydd gwasanaeth eraill. Gyda'r grŵp oedran hŷn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n chwarae rhan amlwg drwy'r gofynion y mae'r system fudd-daliadau a'r ddarpariaeth hyfforddiant yn eu gosod ar bobl ifanc.

## Mae'r graddau y mae'r cynghorau'n cynnwys partneriaid mewn gwaith cynllunio yn amrywio ac mae'r trosiant cymharol gyflym ymhlith darparwyr yn amharu ar effeithiolrwydd partneriaethau lleol

2.17 Mewn rhai cynghorau, mae'r gwaith cynllunio strategol hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar yr awdurdod lleol yn hytrach na chydnabod cyfraniad ei bartneriaid lleol. Yng Nghaerffili, cydnabu'r Cyngor fod angen iddo fynd i'r afael â'r diffyg cydgysylltu rhwng y Cyngor a'i bartneriaid. Er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Cynllunio Craidd fel ffordd o ymgysylltu â'i bartneriaid Caiff ei gadeirio gan bennaeth ysgol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau ieuenctid, Gyrfa Cymru, colegau a phartneriaid eraill. Gweithiodd Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych gyda Gyrfa Cymru, Coleg Llandrillo a'r Ganolfan Byd Gwaith i gael arian Ewropeaidd er mwyn penodi swyddog strategol i weithio o dan Gyrfa Cymru yng Ngholeg Llandrillo gan nodi a chydgysylltu adnoddau a gwasanaethau i bobl ifanc 19-25 oed ledled y ddwy sir. Mewn rhai ardaloedd, roedd gwaith cynllunio strategol wedi'i ymestyn i bartneriaethau lleol a nodwyd cyfrifoldebau'n glir. Yng Nghonwy, er enghraifft, caiff partneriaid perthnasol eu cynrychioli ar y grŵp strategaeth sy'n goruchwylio gwaith NEET. Dywedodd partneriaid wrthym fod y grŵp yn creu partneriaeth effeithiol gydag asiantaethau arweiniol ar gyfer pob cam gweithredu (e.e. Gyrfa Cymru yn arwain ar rannu gwybodaeth). Ar hyn o bryd, ni chaiff yr Adran Gwaith a Phensiynau ei chynrychioli ar y grŵp hwn gan ei fod yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed ond mae'r cyngor yn cydnabod y byddai'n rhaid newid yr aelodau pe byddai'r ffocws yn cael ei ymestyn i gynnwys y rhai sy'n 19 oed a throsodd. Dywedodd partneriaid yng Ngheredigion fod y grŵp ymarferwyr NEET amlasiantaeth yn gyfrwng effeithiol i nodi ac asesu pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Mae agendâu cyfarfodydd misol y grŵp yn gwahaniaethu'n glir rhwng y rhai dan 16 oed a'r rhai 16-18 oed.

2.18 Dywedodd cynghorau wrthym fod anhawster i gael gwybodaeth am ganlyniadau gwaith gan rai partneriaid nas ariennir gan y Cyngor yn eu rhwystro rhag gallu dwyn partneriaid i gyfrif. Er enghraifft, roedd Cyngor Wrecsam wedi'i chael hi'n anodd cael data ar ddilyniant pobl ifanc gan ddarparwr dysgu seiliedig ar waith newydd nad oedd yn gyfarwydd â chytundebau rhannu gwybodaeth lleol. Dywedodd eraill wrthym ei bod yn anodd cael gwybodaeth fanylach gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i lywio eu gwaith cynllunio a datblygu lleol.

2.19 Mewn rhai ardaloedd, dywedodd swyddogion wrthym fod y trosiant uchel ymhlith darparwyr hyfforddiant, am eu bod yn ddibynnol ar grantiau a chontractau byrdymor, yn ei gwneud hi'n anos gweithio mewn partneriaeth yn lleol. Mae'n rhaid i gynghorau adolygu'r sefydliadau amrywiol sy'n

gweithio yn eu hardaloedd yn barhaus yn ogystal â chreu cydberthnasau gwaith newydd. Mae'n cymryd amser i sefydlu trefniadau partneriaeth lleol. Er enghraifft, dywedodd ymatebwyr yn Wrecsam wrthym y bu'n rhaid iddynt dreulio amser a defnyddio adnoddau i ddatblygu cydberthnasau newydd pan ddyfarnwyd y contract am y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith i ddarparwr oedd â fawr ddim gwybodaeth am bartneriaethau lleol. Dywedodd Sir Gaerfyrddin fod natur contractau dysgu seiliedig ar waith yn golygu nad yw'r partneriaethau lleol bob amser yn ymwybodol o'r holl ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael os caiff ei chynnig gan ddarparwyr o'r tu allan i'r ardal leol.

2.20 Cyfeiriodd ymatebwyr mewn sawl ardal at y gwahaniaeth rhwng y cymorth a gynigir gan weithwyr prosiect i bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn wynebu llawer o ffactorau sy'n eu rhwystro rhag ymuno â'r farchnad lafur ac maent yn cael lefel uchel o gymorth, weithiau gan fwy nag un asiantaeth. Fodd bynnag, cydnabu ymatebwyr fod pobl ifanc yn aml yn gweld bod y lefelau cymorth yn gostwng yn sydyn unwaith y byddant yn troi'n 18 oed. O ganlyniad, mae rhai pobl ifanc sy'n parhau i fod yn NEET am gyfnod hir yn cael profiad pontio swta iawn pan fyddant yn troi'n 18 oed.

2.21 Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu y bydd angen i bobl ifanc gael eu paratoi'n well ar gyfer y gofynion fydd yn eu hwynebu fel oedolion ifanc os byddant yn parhau i fod yn NEET, gan gynnwys ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae Cyngor Abertawe yn datblygu 'safonau moesegol' er mwyn ystyried y mater hwn a datblygu dull mwy cyson o weithio gyda phobl ifanc i'r holl sefydliadau. Cynhaliwyd gweithdai amlasiantaeth i gytuno ar y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen ar bobl ifanc er mwyn wynebu eu dyfodol yn llwyddiannus yn ogystal â'r dull y dylai staff rheng flaen ei ddefnyddio i annog y nodweddion hyn. Mae'r Cyngor wrthi nawr yn trafod ffyrdd o gyflawni'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc.

## Mae dibyniaeth ar arian grant yn arwain at ddarpariaeth nad yw o reidrwydd yn gysylltiedig ag anghenion ac efallai na fydd yn gynaliadwy yn wyneb toriadau mewn grantiau ac arian yr UE

2.22 Gwnaethom sylwi bod y math o ddarpariaeth sydd ar gael mewn ardaloedd yn tueddu i adlewyrchu'r grantiau sydd ar gael ar gyfer mathau penodol o waith gyda phobl ifanc a hefyd lwyddiant cymharol rhai darparwyr wrth wneud cais am grantiau. O ganlyniad, roedd gan rai ardaloedd lefel uchel iawn o ddarpariaeth a rhai achosion o ddyblygu gwasanaethau.

2.23 Roedd rhai enghreifftiau o gynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaethau ymadael er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yr oedd y cyngor a phobl ifanc yn eu gwerthfawrogi yn parhau ar ôl i'r arian grant ddod i ben. Yn benodol, cafodd dwy raglen a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop - 'Ymgysylltu' a 'Potensial' - eu crybwyll mewn sawl ardal fel prosiectau yr oedd cynghorau a phobl ifanc yn eu gwerthfawrogi'n fawr[10]. Yn Abertawe, roedd ysgolion wedi darparu arian er mwyn parhau â rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan y prosiectau hyn. Yng Nghonwy, mae ysgolion a'r Cynghorau wedi darparu arian i barhau â gwaith prosiect Potensial. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu


10 Roedd 'Ymgysylltu' yn rhoi cymorth dwys i bobl ifanc 14-19 oed a oedd yn NEET neu'n wynebu risg o adael cyrsiau'n gynnar. Roedd rhaglen 'Potensial' wedi'i hanelu at ddisgyblion 14-16 oed â phroblemau presenoldeb ac ymddygiad yn ogystal â rhai 16-19 oed a oedd yn wynebu risg o adael cyrsiau addysg bellach yn gynnar.

Canolfannau Cynhwysiant ym mhob Ysgol Uwchradd. Ar ôl gwerthuso Prosiect Ymgysylltu yng Ngheredigion, gwnaeth y Cyngor newidiadau i wasanaethau lleol er mwyn parhau â mentrau llwyddiannus a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth.

2.24 Mynegodd rhai cynghorau bryderon am gynaliadwyedd y ddarpariaeth yn wyneb y toriadau mewn gwariant cyhoeddus a'r lleihad yng ngwerth cronfeydd Ewropeaidd. Er enghraifft, nododd swyddogion yn Sir Gaerfyrddin i ganran y rhai a adawodd flwyddyn 11 a oedd yn NEET gynyddu yn 2012-13, yn rhannol am i'r arian Ewropeaidd ar gyfer prosiect 'Ymgysylltu' ddod i ben. Dywedodd Cyngor Wrecsam wrthym fod lleihad mewn arian yn golygu na allai ei raglen STEPS lwyddiannus ddarparu cyrsiau amser llawn mwyach. Roedd ymatebwyr yn Wrecsam yn pryderu am gynaliadwyedd yn y dyfodol; dywedodd un 'rydyn ni'n gwybod ble mae'r bobl ifanc a phwy ydyn nhw ond mae'n bosibl na fydd gennym unrhyw brosiectau i'w helpu nhw'. Yn Sir y Fflint, mynegodd swyddogion bryder y bydd cefnogi pobl ifanc hyd at 25 oed yn her o ystyried bod yr adnoddau sydd ar gael yn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau anstatudol yn lleihau.

## Rhan 3

Er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, mae'r ffaith nad oes systemau gwerthuso rheolaidd ar waith yn golygu bod cyfraniad ymyriadau unigol yn aml yn aneglur, bod cyfraniad partneriaid yn amrywio ac nad yw safbwyntiau pobl ifanc yn dylanwadu fawr ddim ar waith y cynghorau



## Nid yw'r cynghorau yn defnyddio dull cyffredin o fonitro'r nifer fawr o brosiectau a rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd, felly mae'n anodd asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian

3.1 Ar y cyfan, tystiolaeth gyfyngedig sydd gan gynghorau o effeithiolrwydd yr holl waith a wneir gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Yn Sir Gaerfyrddin, adolygodd y Cyngor y ddarpariaeth drwy gynnal cyfres o sesiynau gyda sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardal. Canolbwyntiodd y sesiynau ar gynnydd tuag at dargedau lleihau NEET, y potensial i gynnal prosiectau arloesol a gwaith partneriaeth pellach. Mae adborth o'r adolygiad wedi helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu NEET, fel y dull nodi'n gynnar. Mae rhai cynghorau wedi gwerthuso prosiectau penodol, er enghraifft:

a Mae Cyngor Caerdydd wedi gwerthuso effeithiolrwydd rhai ymyriadau fel y ddarpariaeth hyfforddwyr dysgu cyn ac ôl-16 ac mae'n datblygu tîm o arolygwyr ifanc i fonitro cynnydd prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf;

b mae Cyngor Ieuenctid Conwy wedi gwerthuso effeithiolrwydd lleoliadau profiad gwaith a bydd yn cymryd rhan yn adolygiad Cyngor Conwy o'i strategaeth NEET yn 2013-14;

c mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi adolygu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn erbyn canlyniadau er mwyn datrys yr anghydbwysedd rhwng mentrau cymorth i deuluoedd a mentrau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant; a

ch chomisiynodd Cyngor Sir Ceredigion werthusiad annibynnol o brosiect Ymgysylltu er mwyn nodi blaenoriaethau i'w hariannu yn y dyfodol.

3.2 Fodd bynnag, ar y cyfan, ni wneir gwaith gwerthuso yn rheolaidd. Ynghyd â'r anawsterau a gaiff rhai cynghorau wrth gael mesurau canlyniadau gan bartneriaid, mae hyn yn golygu nad oes gan y rhan fwyaf o gynghorau ddarlun clir o'r 'hyn sy'n gweithio' yn eu hardal er mwyn helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu hefyd nad yw cynghorau mewn sefyllfa dda i farnu a yw ymyriadau'n cynnig gwerth am arian. Dywedodd rhai cynghorau wrthym eu bod yn cynllunio camau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn:

a mae Bro Morgannwg yn bwriadu ymgorffori trefniadau gwerthuso wrth ddatblygu gwasanaethau;

b mae Caerdydd yn bwriadu datblygu fframwaith monitro a gwerthuso a defnyddio treialon, gan gynnwys yr asesiad agored i niwed, er mwyn dysgu gwersi a datblygu darpariaeth i'r dyfodol; ac

c adolygodd Sir y Fflint y ddarpariaeth a oedd eisoes ar gael fel rhan o'i raglen 'Amser i Newid' sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n NEET.

## Mae cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach a phartneriaid eraill i wella canlyniadau pobl ifanc sy’n NEET ond gall cystadleuaeth rhwng partneriaid am ddysgwyr amharu ar waith lleol effeithiol

3.3 Mae’r cynghorau y gwnaethom ymweld â hwy yn gweithio gydag ysgolion i nodi pobl ifanc sy’n wynebu risg o ddod yn NEET a chynnig cymorth iddynt. Dywedodd swyddogion fod ysgolion yn cymryd rhan gynyddol yn y gwaith hwn a’u bod yn cofnodi ac yn monitro canlyniadau ôl-16 yn gynyddol. Mae’r gwaith sy’n mynd rhagddo yn cynnwys cynnal amrywiaeth o asesiadau o ddisgyblion sy’n agored i niwed, gwaith i wella presenoldeb ac ymddygiad, datblygu cwricwlwm amgen, a nodi ffactorau risg posibl sy’n peri i bobl ifanc ymddieithrio.

3.4 Mae cynghorau hefyd yn gweithio’n agos â dosbarthiadau’r chweched mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach i leihau achosion o ymddieithrio a gadael cyrsiau’n gynnar. Er enghraifft, mewn sawl cyngor, mae hyfforddwyr dysgu yn gweithio gydag ysgolion i helpu pobl ifanc y mae perygl y byddant yn ymddieithrio o addysg. Mae Cyngor Caerdydd wedi dechrau gweithio gyda Gyrfa Cymru yn ddiweddar i roi cymorth i bobl ifanc y mae perygl y byddant yn ymddieithrio o’r chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn cynnal gweithdai i ddod â gofalwyr maeth, athrawon a gweithwyr cymdeithasol ynghyd i godi ymwybyddiaeth o’r problemau addysgol sy’n gysylltiedig â phlant sy’n derbyn gofal.

3.5 Mae llawer o gynghorau wedi rhoi trefniadau ar waith i helpu pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio ym mlwyddyn 11. Yn Rhondda Cynon Taf, mae gweithwyr pontio ôl-16 wedi cael eu penodi’n ddiweddar i weithio gydag ysgolion, Gyrfa Cymru a phobl ifanc sy’n wynebu risg o ddod yn NEET. Dywedodd ysgolion yn Wrecsam wrthym fod cydberthnasau gwaith agos gyda gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr gyrfaoedd a’r gwasanaeth ieuenctid yn hollbwysig er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET. Dywedodd un o’r ysgolion wrthym fod cyflogi mentor ymddygiad a ariannwyd gan y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi bod yn ymyriad gwerthfawr gan ei fod wedi galluogi dysgwyr i barhau i ymgysylltu â’r ysgol.

3.6 Roedd cynghorau wedi gweithio’n agos hefyd gyda cholegau addysg bellach ac, mewn rhai achosion, ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn atal pobl ifanc rhag gadael cyrsiau’n gynnar a gwella cyfraddau cadw:

a Yn Sir Gâr, mae Coleg Sir Gâr yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy’n wynebu risg o adael cyrsiau coleg yn gynnar drwy dîm gwasanaethau dysgu pwrpasol a gwaith gyda disgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11 drwy ei raglen Mynediad Ieuenctid.

b Mae Coleg Iâl yn Wrecsam yn cynnal ‘Coleg Gaeaf’ fel rhagflas ar fywyd coleg i bobl ifanc sy’n wynebu risg o ddod yn NEET yng Nghyfnod Allweddol 4.

c Yng Nghaerdydd hefyd, mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu sesiynau rhagflas i bobl ifanc.

d Mae sawl cyngor - gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chaerdydd - yn cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau addysg bellach i drafod presenoldeb a phobl ifanc sy'n gadael cyrsiau'n gynnar. Yng Nghaerdydd, mae o leiaf un darparwr dysgu seiliedig waith (ACT Training) wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r broses hon.

3.7 Mae ymchwil wedi dangos pwysigrwydd cyfleoedd dysgu hyblyg i'r rhai sy'n wynebu risg o ymddieithrio[11]. Mae sawl sefydliad addysg bellach a darparwr dysgu seiliedig ar waith wedi gweithio gyda chynghorau i ddarparu cyfleoedd dysgu hyblyg er mwyn gwella cyfraddau cadw ac annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg bellach:

a mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio gyda sefydliadau addysg bellach i ddarparu cyrsiau Safon Uwch mewn ysgol leol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt am deithio'n bell i fynd i'r coleg addysg bellach. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i ddarparu cyrsiau dysgu ymarferol ym maes ffasiwn ac awtofecaneg sy'n adlewyrchu cyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae'r Coleg wedi datblygu cyrsiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill er mwyn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth. Mae cwrs penodol ar gael ar gyfer y nifer gynyddol o bobl ifanc dan oed sy'n cyrraedd y ddinas ar eu pen eu hunain a gellir cofrestru â'r cwrs hwn ar unrhyw adeg, felly nid oes yn rhaid i'r bobl ifanc aros cyn dechrau dysgu. Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i weithio gyda'r Coleg i ddatblygu llwybrau ôl-16 ar gyfer y bobl ifanc hyn, gan gynnwys cymorth i gymryd rhan mewn cyrsiau galwedigaethol lefel mynediad.

b Yn Wrecsam, mae ITEC, darparwr dysgu seiliedig ar waith, yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i ddarparu a chefnogi lleoliadau. Mae hefyd yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal ac mae'n bwriadu gweithio gydag unedau cyfeirio disgyblion yn y dyfodol agos i nodi'r rhai sy'n wynebu risg o adael cyrsiau'n gynnar a'u hatal rhag ymddieithrio.

3.8 Er gwaethaf y gweithgarwch hwn, gall cystadleuaeth rhwng ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau addysg bellach am ddysgwyr achosi tensiwn ac amharu ar waith partneriaeth. Daeth Cyngor Wrecsam i gytundeb â'i ysgolion na ddylai dosbarthiadau'r chweched ddarparu cyrsiau lefel un na dau mwyach. Mae hyn yn golygu llai o ddyblygu ac mae'n gwella'r ddarpariaeth oherwydd ystyrir bod y coleg addysg bellach yn amgylchedd mwy perthnasol i'r dysgwyr hyn.

3.9 Dywedodd sawl darparwr dysgu seiliedig ar waith wrthym nad oeddent o'r farn bod ysgolion yn hyrwyddo eu darpariaeth fel opsiwn ymarferol i'w dysgwyr a dywedodd un darparwr dysgu seiliedig ar waith wrthym ei fod wedi cael ei rwystro rhag marchnata ei gyrsiau mewn ysgolion lleol. Yn Abertawe, mae system gwneud cais ar-lein UCAS yn cyflwyno'r holl opsiynau sydd ar gael yn yr ardal i bobl ifanc ym mlwyddyn 11. Mae hyn yn golygu y gall pob disgybl ysgol gael gwybodaeth am yr holl opsiynau lleol sydd ar gael iddo. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n treialu proses gwneud cais gyffredin i ddysgwyr ôl-16 sydd wedi'i modelu'n agos ar broses Abertawe o fis Medi 2013.

11 Nelson, J ac O'Donnell, L. (2012). *Approaches to Supporting Young People Not in Education, Employment or Training: a Review* (Rhaglen Ymchwil NFER: From Education to Employment) Slough, NFER

## Yn gyffredinol, dywedodd cynghorau eu bod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd fel prentisiaethau a phrofiad gwaith ac addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur

3.10 Cyfaddefodd sawl cyngor eu bod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â chyflogwyr i annog cyfleoedd yn y farchnad lafur a dylanwadu ar addysg a hyfforddiant. Dywedodd rhai cyflogwyr wrthym iddynt ganfod bod rhai ysgolion yn anfodlon cydweithredu â nhw. Yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, dywedodd swyddogion wrthym nad oedd cyflogwyr wedi cyfrannu fawr ddim at ddatblygiad Strategaeth Cefnogi Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (SEET) Rhondda Cynon Taf. Nid yw grŵp SEET sy'n goruchwylio gwaith y Cyngor yn y maes hwn yn cynnwys unrhyw gynrychiolwyr o fusnesau lleol. Dywedodd swyddogion Cyngor Torfaen wrthym eu bod am wneud mwy o waith gyda chyflogwyr i roi cyhoeddusrwydd i'r cymorth sydd ar gael i gyflogwyr sy'n derbyn pobl ifanc a'u bod hefyd am wneud mwy o waith gyda phobl ifanc i hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn yr awdurdod. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod diffyg ymgysylltiad â chyflogwyr yn broblem gyffredin yn y DU: canfu adolygiad gan Ofsted hefyd nad oedd cyflogwyr yn cyfrannu digon at y gwaith o ddatblygu strategaethau cynghorau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[12].

3.11 Fodd bynnag, dywedodd rhai cynghorau eu bod wedi gweithio'n llwyddiannus gyda chyflogwyr i nodi cyfleoedd ar gyfer eu pobl ifanc:

a Mae gan Gyngor Caerdydd dîm sy'n gweithio gyda busnesau lleol i gasglu gwybodaeth yn rheolaidd am anghenion busnesau a bylchau mewn sgiliau. Mae'r gwaith hwn yn llywio mentrau â phrifysgolion lleol i lunio cyrsiau er mwyn llenwi'r bylchau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu cysylltiadau â busnesau lleol drwy ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr, ffeiriau swyddi a gweithgor er mwyn deall y materion perthnasol sy'n effeithio ar fusnesau yn y ddinas. Nododd y grŵp fod angen hyfforddiant cyn cyflogi ac mae SWALEC wedi datblygu'r prosiect 'Learn to Earn' er mwyn darparu'r cymorth hwn yn Ysgol Uwchradd newydd y Dwyrain.

b Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf hefyd yn cynnal prosiect peilot i fusnesau lleol ymweld ag ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael a darparu sgiliau chwilio am swyddi ac mae Cyngor Conwy wedi gweithio gyda chyflogwyr i wella cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith.

c Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi nodi cyfleoedd newydd i'w bobl ifanc yn sgil y cyflogwyr newydd fydd yn dod i'r ardal yn y dyfodol agos.

12 Ofsted (2010) *Reducing the numbers of young people not in education, employment or training: what works and why*, tudalen 6

3.12 Mae'r cynghorau eu hunain yn gyflogwyr mawr ac mae nifer ohonynt wedi datblygu cynlluniau prentisiaethau, y mae rhai ohonynt yn targedu pobl ifanc sy'n NEET. Nid yw pob un o'r cynlluniau hyn wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc nac at y rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio. Er enghraifft, sefydlodd Rhondda Cynon Taf raglen brentisiaeth yn cynnig 30 o leoedd yn cyfuno hyfforddiant ymarferol ac astudiaethau ar draws y Cyngor yn 2012. Er nad yw'r rhaglen brentisiaeth wedi'i chynnwys yn strategaeth SEET y Cyngor, gall pobl ifanc wneud cais ar ei chyfer. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwerthuso'r cynllun yn 2013-14. Mae gan Cartrefi RCT raglen brentisiaeth lwyddiannus hefyd ond nid yw hon ychwaith yn cael fawr o sylw yn y strategaeth SEET ac mae'n agored i bobl o bob oed. Yn Wrecsam, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi anelu ei gynllun prentisiaeth at bobl ifanc 16-17 oed ac, ar ôl ei adolygu, penderfynodd ddileu ei ofyniad mynediad cychwynnol o bum gradd TGAU graddau A*-C er mwyn rhoi cyfleoedd i grŵp ehangach o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn NEET. Yn yr un modd, mae Cynllun Pasbort Caerffili yn ceisio lleihau lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc 16-24 oed.

3.13 Mae rhai cynghorau wedi datblygu rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc ag anghenion penodol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu lleoliadau gwaith i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi datblygu rhaglen hyfforddiant seiliedig ar waith yn Vision Products mewn partneriaeth ag Ysgol Hen Felin ac Elite Support Employment Agency er mwyn annog oedolion ifanc ag anableddau i weithio.

3.14 Dywedodd ymatebwyr mewn sawl ardal, yn eu profiad nhw, nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael yn lleol bob amser yn cyd-fynd â dyheadau pobl ifanc. Dywedwyd wrthym nad oes gan lawer o bobl ifanc ddiddordeb mewn manwerthu fel gyrfa er bod llawer o'r cyfleoedd sydd ar gael i'w canfod yn y sector hwn a'i fod yn cynnwys llwybrau at reoli ym maes manwerthu. I'r gwrthwyneb, mewn rhai ardaloedd, roedd y galw am gyrsiau TGCh, gwallt a harddwch yn fwy na'r cyfleoedd swyddi a oedd ar gael yn lleol yn y meysydd hyn. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu canfyddiad gwaith ymchwil arall y gallai'r cwricwlwm wella dealltwriaeth pobl ifanc o fyd gwaith a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt (Ofsted, 2010:6, NfER 2012).

## Mae rhai cynghorau wedi datblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol gyda phobl ifanc ond maent i gyd yn cydnabod y gallent wneud mwy i ddefnyddio barn a phrofiadau pobl ifanc er mwyn dylanwadu ar gynllun gwasanaethau lleol

3.15 Gwelsom sawl enghraifft o gynghorau'n defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd arloesol i roi gwybodaeth i bobl ifanc ac ymgysylltu â nhw. Mae gan lawer o gynghorau wefannau, yn ogystal â chyfrifon Twitter a Facebook cysylltiedig yn aml, sy'n anelu at roi gwybodaeth i bobl ifanc am wasanaethau a'u hannog i gyfranogi. Mae pobl ifanc yn helpu i olygu'r gwefannau mewn sawl cyngor:

a mae gwefan Swoosh Bro Morgannwg yn rhoi cyngor ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a gwybodaeth am wasanaeth symudol y Cyngor a ddarperir mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn yr ardal hon;

b mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu ei Gynllun Pasbort;

c yn Sir y Fflint, gweithiodd y Cyngor gydag artist, cwmni ffilmiau a phobl ifanc leol i ddatblygu DVD hygyrch o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2011-14); a

ch chynhaliodd Cyngor Caerdydd 'Hackathon' ym mis Awst 2013, gyda'r nod o ddwyn pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid, busnesau a chyflogwyr ynghyd â rhaglenwyr a datblygwyr i gydgynllunio cynhyrchion a gwasanaethau digidol sy'n galluogi pobl ifanc i wneud gwell penderfyniadau am eu dyfodol.

3.16 Fodd bynnag, prin oedd yr enghreifftiau a welwyd o gynghorau'n datblygu'r rhyngrwyd neu'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion addysg a dysgu, ond mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio rhaglen tracio sgiliau ar-lein ar hyn o bryd mewn ysgolion o gyfnod allweddol 2 ymlaen. Cynlluniwyd y feddalwedd i edrych yn debyg i Facebook ac mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc lanlwytho manylion am weithgareddau ac ateb cyfres o gwestiynau am y mathau o sgiliau y maent wedi'u defnyddio.

3.17 Roedd swyddogion mewn rhai cynghorau yn ansicr ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac ymddengys fod gan staff rheng flaen agweddau gwahanol at ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, mynegodd swyddogion yn Rhondda Cynon Taf bryderon am faterion yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc a diogelu data a hoffent gael mwy o arweiniad ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn briodol. Yng Nghaerdydd, dywedodd staff rheng flaen eu bod yn teimlo bod biwrocratiaeth fewnol yn cyfyngu ar eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan fod yn rhaid iddynt ddefnyddio adran gyfathrebu'r Cyngor i anfon neges.

3.18 Roedd llawer o enghreifftiau o gynghorau'n ymgynghori â phobl ifanc am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a'u profiad o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd y cynghorau'n defnyddio fforymau ieuenctid, cynghorau ysgol, gweithgorau neu waith ymgysylltu un i un gan staff rheng flaen (gweithwyr ieuenctid a hyfforddwyr dysgu) er mwyn deall anghenion unigolion ac ymateb iddynt. Er enghraifft:

a cyflwynoddCyngorIeuenctidCaerdyddrestr o'i flaenoriaethau i Bartneriaeth Caerdydd, a oedd yn codi pryderon am gost uchel trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc 16-17 oed, oherwydd credwyd ei bod yn eu rhwystro rhag mynychu cyrsiau addysg neu hyfforddiant neu gael swyddi. Y canlyniad oedd i Bws Caerdydd newid y strwythur prisiau tocynnau i bobl ifanc;

b ymchwiliodd Cyngor Ieuenctid Conwy yn ddiweddar i ansawdd lleoliadau profiad gwaith, ac yn dilyn hyn datblygwyd prosbectws sy'n ceisio gwella ansawdd profiad gwaith a mynediad ato;

c cymerodd pobl ifanc ran yn y broses gomisiynu ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf gyda Barnardos fel rhan o Raglen Comisiynwyr Ifanc Caerdydd a enillodd wobr gaffael genedlaethol yn dilyn hyn; ac

ch ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â phobl ifanc ar y cwricwlwm amgen ac fel rhan o'r gwerthusiad o brosiect Ymgysylltu.

3.19 Mae cynghorau'n cydnabod bod pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny ymhlith y grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd ac mae rhai wedi cymryd camau ychwanegol i ymgysylltu â nhw:

a cyflogodd Cyngor Caerdydd weithiwr ieuenctid â'r sgiliau a'r wybodaeth i ymgysylltu â phobl ifanc mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;

b ym Mro Morgannwg, mae grŵp 'Anhawster Ymgysylltu' yn ystyried anghenion pobl ifanc sy'n anodd i'w cyrraedd; ac

c ymchwiliodd Cyngor Ieuenctid Conwy i brofiad y rhai sy'n gadael gofal ac arweiniodd hyn at greu cyflwyniad fideo a oedd yn dangos pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal yn trafod eu profiad, gan gynnwys eu profiad pontio i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

3.20 Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn mynd ati'n systematig i ystyried safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg

Atodiad 2 - Argymhellion manwl



# Atodiad 1
# Methodoleg

## Ymweliadau â chynghorau

Gwnaethom ymweld ag wyth cyngor ledled Cymru rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2013[13]:

- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Conwy
- Sir y Fflint
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg

Yn ystod yr ymweliadau hyn, gwnaethom siarad â chynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am bennu dull strategol y cynghorau o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Gwnaethom siarad hefyd ag aelodau eraill o staff sy'n gyfrifol am weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, rhai a gyflogir gan y cynghorau a darparwyr gwasanaethau eraill.

Gwnaethom hefyd siarad â phartneriaid yn yr ardaloedd lleol gan gynnwys staff Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, ysgolion a cholegau addysg bellach, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn cael darlun llawn o'r gwasanaethau yn yr ardal. Gwnaethom siarad â staff o rai prosiectau trydydd sector a oedd ar waith yn yr ardaloedd.

Gwnaethom hefyd ymweld â chynghorau Abertawe a Wrecsam, lle cynhaliwyd ymchwil yn 2011 a nododd ffactorau sy'n gysylltiedig â gweithredu mentrau ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET yn llwyddiannus. Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r cynghorau wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau a'u datblygu ymhellach ers 2011.

## Adolygu dogfennau strategol

Er mwyn llywio'r astudiaeth, gwnaethom ystyried dogfennau strategol allweddol y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys eu Cynlluniau Gwella, Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'u Strategaethau NEET. Gwnaethom hefyd ystyried canlyniadau ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd gan gynghorau ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod gwanwyn 2013.

Gwnaethom gynnal ymchwiliad mwy trylwyr o ddogfennau'r cynghorau fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr wyth cyngor y gwnaethom ddewis ymweld â nhw. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth o gynlluniau sefydliadol, strategaethau, adroddiadau ymgynghori a gwerthusiadau er mwyn cael dealltwriaeth o'r gwasanaethau lleol a ddarperir ym mhob ardal.

13 Gofynnodd Cyngor Ceredigion i ni adolygu ei waith gyda phobl ifanc sy'n NEET fel rhan o'n rhaglen o waith asesu. Gwnaed hyn ym mis Hydref a mis Tachwedd 2013 a chyfeiriwn at rai o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 2
# Argymhellion manwl

Mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fapio gwasanaethau, sefydlu trefniadau nodi'n gynnar, sefydlu darpariaeth gweithwyr arweiniol a datblygu a thrafod eu cynlluniau i leihau niferoedd NEET gyda Llywodraeth Cymru. Hefyd, dylai cynghorau wneud y canlynol:

A1 Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith.

A2 Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

A3 Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol.

A4 Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

A5 Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed.

A6 Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

Er mwyn helpu cynghorau i weithredu'r argymhellion hyn, ceir awgrymiadau penodol isod.

## Datblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o wariant ar wasanaethau ieuenctid yn gyffredinol a gwasanaethau NEET yn benodol

A1 Yn gyffredinol, nid yw cynghorau wedi asesu eu holl wariant eu hunain na gwariant eu partneriaid ar wasanaethau ieuenctid a chymorth cyflogaeth. Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn golygu nad oes ganddynt sail i asesu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r Fframwaith na monitro pa mor gost-effeithiol yw eu gwariant cyfredol. Er mwyn darparu sail gadarnach i lunio polisïau yn y dyfodol:

- dylai cynghorau a'u partneriaid fapio ac adolygu eu gwariant ar draws gwasanaethau ieuenctid fel eu bod mewn sefyllfa well i farnu cost-effeithiolrwydd y gwariant hwn; a

- dylai cynghorau fynd ati mewn ffordd fwy systematig i asesu'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu Fframwaith Llywodraeth Cymru er mwyn darparu sail hyddysg i'w trafodaethau chwe-misol â swyddogion Llywodraeth Cymru ar sut y maent yn gweithredu ei Fframwaith.

## Cyflawni targedau cenedlaethol i leihau cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET.

A2 Yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016* mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. Hyd yma, mae'r cynghorau wedi canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed ond mae rhai wrthi'n datblygu gwasanaethau i bobl ifanc 19-24 oed. Caiff y sefyllfa ei chymhlethu ymhellach gan y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc 19-24 oed mewn cysylltiad mwyach ag ysgolion na cholegau addysg bellach a'r ffaith mai eu prif gyswllt yw'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), sy'n gyfrifol am les a chymorth cyflogaeth i'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith ers amser hir. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed a chred Llywodraeth Cymru y bydd gwella dilyniant yr oedran hwn yn arwain at well canlyniadau ar gam hwyrach. Fodd bynnag, mae gwaith mewn mannau eraill wedi nodi bod angen i gynghorau barhau i gefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ar ôl 18 oed. Gwnaethom nodi bod llawer o gynghorau yn dechrau ystyried sut y gall y camau a gymerir gyda phobl ifanc 16-18 oed gael eu haddasu ar gyfer y nifer fwy o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. Mae hyn yn cynnwys datblygu cysylltiadau gyda DWP yn lleol, sy'n chwarae rhan bwysicach gyda'r grŵp oedran. Er mwyn cyflawni eu targedau i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET:

- mae angen i gynghorau egluro eu dulliau strategol o leihau ymddieithriad ymhlith pobl ifanc 19-24 oed;
- dylai pob cyngor ystyried a yw'r dull a ddefnyddir i nodi a chefnogi pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn briodol i'r grŵp oedran hŷn o gofio'r nifer sylweddol fwy o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran cael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- dylai cynghorau weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu eu gwaith gyda phobl ifanc 19-24 oed er mwyn rhannu dysgu sy'n dod i'r amlwg ac arfer da a sicrhau bod gwaith cynghorau a'u gwaith cynllunio yn gyson â blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol; a
- dylai cynghorau adolygu gwariant ar gymorth i bobl ifanc 19-24 oed yn eu hardal ac os nad oes digon o gysondeb a chydgysylltedd rhwng ffrydiau ariannu allanol a'u strategaethau, dylent godi hyn â Llywodraeth Cymru yn ystod eu cyfarfodydd rheolaidd.

## Cyflawni gwelliannau hirdymor mewn canlyniadau i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn NEET ar hyn o bryd.

A3 Mae pobl ifanc sy'n NEET yn wynebu amrywiaeth o rwystrau gwahanol i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae pobl ifanc sy'n anabl, â salwch cronig, ag anghenion addysgol arbennig, â chyfradd presenoldeb wael yn yr ysgol a lefel cyrhaeddiad wael, yn ogystal â'r rhai o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn fwy tebygol o ddod yn NEET. Mae gan rieni ifanc gyfradd ymddieithrio uchel. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n NEET yn barhaus neu'n greiddiol a'r rhai sydd ond allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant dros dro yn eu hamcanion strategol neu unrhyw darged a bennir. Bydd canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n NEET yn barhaus hefyd yn arwain at yr arbedion mwyaf o ran pwrs y wlad. Er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus i'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf anodd eu cynnwys mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, dylai cynghorau wneud y canlynol:

- Gwahaniaethu eu gwaith ar leihau ymddieithriad i ganolbwyntio'n glir ar bobl ifanc sy'n NEET yn barhaus, er mwyn osgoi'r perygl y gallai cynghorau gyflawni eu hamcanion heb effeithio ar y rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur.

- Dylai dogfennau strategol cynghorau gyfeirio'n benodol at waith gyda phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn NEET, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb Sengl 2010 a rhieni yn eu harddegau; a dylai cynghorau ystyried eu trefniadau ar gyfer llunio adroddiadau penodol ar ganlyniadau'r grwpiau hyn.

## Sicrhau bod Llywodraeth Cymru, cynghorau a'u partneriaid yn gweithio tuag at dargedau ac amcanion a rennir ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

A4 Ar y cyfan, mae cynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae lefel uchel o ddealltwriaeth o ffactorau risg a chostau cymdeithasol bod yn NEET. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pob cyngor wedi datblygu targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET y gellid asesu eu perfformiad yn eu herbyn. Lle pennwyd targedau, mae eu ffocws yn anghyson ac nid ydynt bob amser yn gyson â thargedau Llywodraeth Cymru. Er mwyn pennu targedau a sicrhau y gall cynghorau a phartneriaid gael eu dwyn i gyfrif am berfformiad:

- mae angen i gynghorau ddatblygu targedau CAMPUS sy'n dangos cynnydd tuag at y nodau a galluogi'r cyngor a'i bartneriaid cyflawni i gael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad; a

- dylai cynghorau sicrhau bod cysylltiad clir rhwng eu targedau nhw a mesurau, targedau a chynlluniau gweithredu cenedlaethol er mwyn sicrhau bod amcanion a thargedau lleol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol yn ddigonol.

## Cyflawni eu cyfrifoldeb am arwain gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed.

A5 O dan *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru* (2000) a chanllawiau dilynol, mae gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. Felly, mae Fframwaith Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir bod cynghorau'n atebol am ddarparu gwasanaethau i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd cynghorau bob amser yn sicr ynglŷn â'u cyfrifoldebau, yn enwedig dros bobl ifanc 19-24 oed. Er i swyddogion ac aelodau gydnabod bod gan gynghorau nifer o gyfleoedd i lywio polisïau a chanlyniadau i bobl ifanc 16-18 oed, mynegodd rhai ohonynt bryderon am allu cynghorau i ddylanwadu ar welliannau ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed gan fod sefydliadau eraill yn chwarae rôl amlycach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a DWP. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb am arwain gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed yn well, dylai cynghorau wneud y canlynol:

- darparu hyfforddiant i Aelodau i'w galluogi i ddeall a chyflawni'n well eu cyfrifoldeb o dan Ymestyn Hawliau am arwain gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed a bod yn atebol amdanynt; ac
- elguro'r amrywiaeth o ddarparwyr a sefydliadau sy'n ymgysylltu â phobl ifanc 19-24 oed - gan gynnwys DWP - er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i ddatblygu dulliau effeithiol o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn lleol a sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid effeithiol ar gael yn lleol i'r grŵp oedran.

## Gwerthuso effaith y fframwaith a lledaenu arfer da

A6 Bu llawer o ymchwil i'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth mor glir ar gael ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau penodol ac, yn arbennig, werth am arian y nifer fawr o brosiectau a rhaglenni sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Prin yw'r cynghorau sy'n mynd ati mewn ffordd systematig i adolygu effeithiolrwydd eu gwaith gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Er mwyn darparu tystiolaeth ar effeithiolrwydd y gwaith a wneir a'i werth am arian, dylai cynghorau wneud y canlynol:

- gwerthuso effeithiolrwydd eu dull o nodi'r rhai sy'n wynebu'r perygl o ddod yn NEET, gan ystyried y canllawiau arfer da a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014;
- trafod cynlluniau i werthuso prosiectau a rhaglenni a ariennir gan y cyngor a'r trydydd sector gyda'r nod o sefydlu canlyniadau ac allbynnau cymaradwy fel y gall cynghorau asesu effeithiolrwydd cymharol ymyriadau â phobl ifanc;
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu methodoleg ar gyfer asesu gwerth am arian prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys y costau cymdeithasol ac economaidd, y gall cynghorau a'u partneriaid eu defnyddio yn eu gwerthusiadau eu hunain; a
- chynnwys asesiad o ymyriadau ar gyfer is-grwpiau o bobl ifanc o fewn y boblogaeth NEET mewn data monitro a gwerthusiadau.